

Teitl y Swydd:	Ffisiotherapi Rygbi Dynion
Uned/Ysgol:	Chwaraeon Met Caerdydd
Gradd:	5A/B
HERA:	CMETS74

Prif bwrpas y rôl

Bydd y rôl yn gyfrifol am ddatblygu a darparu gwasanaethau meddygol i dimau Uwch Rygbi BUCS (MBSR) y Dynion a thimau Uwch Gynghrair URC. Gan weithio o fewn rhaglen rygbi'r dynion, bydd y rôl hefyd yn gweithio'n agos gyda ffisiotherapydd rygbi'r menywod a'r Tîm Gwasanaethau Perfformiad ehangach a Phennaeth Perfformiadau i gydweithio, cael mynediad at a chefnogi DPP a datblygu'r ddarpariaeth.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

1. Gweithredu fel cyswllt meddygol sylfaenol gyda Phennaeth Rygbi Perfformiad, Prif Hyfforddwr y Dynion, Prif Brif Hyfforddwr a Phennaeth Gwasanaethau Perfformiad i ddeall a diwallu anghenion y rhaglenni perthnasol.
2. Cyfrifol am gynllunio a gweinyddu darpariaeth ffisio gadarn ar gyfer rhaglen berfformiad Dynion Met Caerdydd.
3. Arwain y gwaith o ddarparu darpariaeth ffisiotherapi fanwl ar gyfer timau perfformiad y Dynion, gan ddefnyddio'r Tîm Amlddisgyblaethol ehangach, staff academiaidd, a'r gweithlu myfyrwyr i ategu'r ddarpariaeth o wasanaethau.
4. Gweithio'n agos gyda Phennaeth Rygbi Perfformiad a Phennaeth Gwasanaethau Perfformiad i gydlynw'r gwaith o ddarparu darpariaeth ffisiotherapi fanwl ar gyfer timau perfformiad dynion Met Caerdydd, tra hefyd yn defnyddio'r Tîm Amlddisgyblaethol ehangach, staff academiaidd, a'r gweithlu myfyrwyr i ategu'r ddarpariaeth o wasanaethau.
5. Gweithio'n agos gyda Phennaeth Rygbi Perfformiad, clybiau proffesiynol a Chyrff Rheoli Cenedlaethol i alinio cefnogaeth a rheolaeth athletwyr dan contract i alluogi amgylchedd chwaraeon prifysgol perfformiad uchel.
6. Sicrhau bod gan bob chwaraewr rhaglen berfformiad fynediad at brotocol rheoli cyfergyd strwythuredig a nodi cyfleoedd ar gyfer darpariaeth rheoli cyfergyd addas ar draws y clwb rygbi ehangach.
7. Cyflwyno prosesau dychwelyd i chwarae (RTP) strwythuredig a phrotocolau cyfergyd sy'n cyd-fynd â chanllawiau'r RFU a'r WRU a nodi cyfleoedd ar gyfer darpariaeth addas ar gyfer aelodau ehangach y clwb.
8. Sicrhau dull rhagweithiol, cadarn a chydweithredol o raglennu paratoi corfforol a chyflwyno mewn clinigau drwy gydol y tymor.
9. Darparu gorchudd meddygol sesiwn hyfforddi cyswllt ar gyfer pob sesiwn hyfforddi cyswllt llawn ochr yn ochr â chefnogaeth ochr y cae ar ddiwrnod gêm i gemau cartref ac oddi cartref a gemau Uwch Gynghrair Rygbi.
10. Darparu adroddiadau digidol rheolaidd i Bennaeth Perfformiad Rygbi a Phennaeth Gwasanaethau Perfformiad i gynorthwyo gyda rhaglennu, cynllunio, dewis tîm a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar garfan.

11. Cydlynu a chefnogi goruchwyllo myfyrwyr lleoli ac interniaeth.
12. Cydymffurfio â'r holl brosesau llywodraethu clinigol a chod ymddygiad, gan gwblhau dyletswyddau cysylltiedig ar gyfer safonau gweithredu gofynnol Prifysgolion a Cholegau Chwaraeon Prydain (BUCS), CSP, a HCPC, gan gynnwys y broses archwilio ac adolygu ar gyfer pob maes perthnasol.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaeth broffesiynol

1. Gradd israddedig mewn ffisiotherapi.
2. Aelod o'r Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi.
3. Wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd (HPC).
4. Cymhwyster trawma ochr y cae PHICIS (neu dystysgrif gofal uniongyrchol wedi'i chymeradwyo gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon Caeredin), neu gymhwyster a gyflawnwyd erbyn dechrau'r tymor.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Profiad o weithio fel ffisiotherapydd mewn amgylchedd rygbi.
2. Profiad o gefnogaeth ffisiotherapi ochr y cae, yn enwedig mewn lleoliad rygbi.
3. Profiad o asesu a thrin cyflyrau cyhyrsgerbydol ac anafiadau chwaraeon.
4. Profiad o ddefnyddio offer diagnostig a systemau rhaglennu a monitro athletwyr (VALD, Gymaware, TrainMyAthlete ac ati).
5. Gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gydag athletwyr, staff a rhanddeiliaid.
6. Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol.
7. Sgiliau datrys problemau a gwneud penderfyniadau rhagorol.
8. Ymrwymiad amlwg i DPP.
9. Gallu i weithio fel tîm ac yn annibynnol.
10. Ymrwymiad i weithio mewn dull hyblyg a dealltwriaeth o oriau gwaith a gofynion chwaraeon perfformiad.

Dymunol

1. Profiad o ddatblygu darpariaeth gwasanaeth i ddiwallu anghenion timau a/neu athletwyr.
2. Profiad o gyfathrebu a gweithio gyda hyfforddwyr neu arweinwyr Perfformiad.
3. Dealltwriaeth o bwysau myfyrwyr-athletwyr.

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau Cymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn glir yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifydd	Gwranddo	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Meistrolaeth Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS manylach.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

